



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Diweddariad Ionawr 10fed

Croeso nôl - Braf iawn gweld y disgylion yn dychwelyd i'r ysgol heddiw. Mae'r ysgol bellach wedi symud yn ôl i gadw pawb yn eu swigod dosbarth (heblaw y Meithrin a'r Derbyn sy'n gweithredu fel dwy swigen) Mae hyn yn cynnwys amseroedd egwyl a threfniadau cinio. Mae'r drefn o hebrwng plant i'r ysgol a'u casglu ar ddiwedd dydd yn aros yr un fath.

Trefniadau o fewn y dosbarthiadau - Mae'r ysgol yn cadw cofnod o leoliad eistedd pob plentyn o fewn y dosbarthiadau ac yn sicrhau fod pawb yn wynebu'r un cyfeiriad – mae hyn yn hwyluso trefniadau diogelwch a disgwyliadau profi ac olrhain. Rydym hefyd yn sicrhau llif o awyr iach drwy awyru addas ac yn monitro ansawdd yr aer drwy ddyfais CO₂.

Absenoldeb staff – un o'r heriau rydym yn rhagweld yw sicrhau staffio addas i bob dosbarth yn sgil staff sy'n sâl neu sy'n gorfol hunan ynysu. Mi fydd yr ysgol yn defnyddio staff cyflenwi (os ar gael), dysgu tîm drwy ddefnyddio cymysgedd o athrawon a staff cynorthwyo, dysgu drwy Teams o fewn yr ysgol neu ddysgu drwy Teams o adref os nad oes unrhyw opsiwn arall ar gael. Mae'n bosib y bydd angen gwneud y trefniadau yma ar fyr rybudd os fydd yr amgylchiadau yn newid.

Dysgu byw / sesiynau galw mewn – Os fydd angen cau yn sydyn am unrhyw reswm yna mi fyddwn yn awyddus iawn i sicrhau ein bod medru gweld pawb yn ddyddiol ar y sgrîn drwy Teams. Mi fydd y staff yn darparu tasgau (aseiniadau o fewn Teams) i'w cwblhau yn ystod cyfnod penodol. Cofiwch gysylltu gyda'r ysgol os nad oes gennych ddyfais addas.

Amserlen dysgu ar Teams os fydd angen;

- 9.00 – Blwyddyn 6
- 9.30 – Blwyddyn 5
- 10.00 - Blwyddyn 4
- 10.30 – Blwyddyn 3
- 11.00 – Blwyddyn 2
- 11.30 – Blwyddyn 1
- 1.00 – Derbyn
- 1.30 – Meithrin

Hwb gofal plant 9.00 – 3.30 – Os fydd angen cau dosbarth neu ddosbarthiadau oherwydd unrhyw salwch yna mi fyddwn yn parhau i ddarparu Hwb gofal i blant gweithwyr allweddol (os nad oes gennych unrhyw opsiynau eraill) Mi fydd angen cysylltu gyda'r ysgol i drefnu lle.

Symptomau – cofiwch na ddylech ddanfon eich plant i'r ysgol os ydynt yn arddangos unrhyw symptomau coronaferiws.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams

Pennaeth 10/1/2022



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

January 10th Update

Welcome back - It's great to see the pupils returning to school today. The school has now moved back to keep everyone in their classroom bubbles (except the Nursery and Reception who operate as two bubbles). This includes break times and lunch arrangements. The arrangements for bringing children to school and collecting them at the end of the day remains the same.

Classroom Arrangements - The school keeps a record of each child's seating position within the classes and ensures that everyone is facing in the same direction - this facilitates safety arrangements and track and trace regulations. We also ensure the flow of fresh air through suitable ventilation and monitor air quality through a CO2 device.

Staff absence - one of the challenges we envisage is ensuring appropriate staffing for all classes due to staff being ill or having to self-isolate. The school will deploy supply staff (if available), teach as a team using a mix of teachers and support staff, teach through Teams within the school or teach through Teams from home if no other option is available. These arrangements may need to be made at short notice if the circumstances change.

Live learning / drop-in sessions - If we need to close quickly for any reason then I would be very keen to ensure that we can see everyone on screen daily through Teams. Staff will provide tasks (assignments within Teams) to complete during a set period. Please contact the school if you do not have a suitable device.

Learning from home timetable;

9.00 - Year 6
9.30 - Year 5
10.00 - Year 4
10.30 - Year 3
11.00 - Year 2
11.30 - Year 1
1.00 - Reception
1.30 - Nursery

Childcare Hub - Should a class or classes need to be closed due to any illness then we will continue to provide a Key Worker Childcare Hub (if you have no other options) Please contact the school to arrange a place.

Symptoms - remember that you should not send your children to school if they show any symptoms of coronavirus.

If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately

R C Williams, Headteacher

10/01/2022